Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
# Ffordd Cefn Yr Hendy
# Miskin
# Pontyclun
# RCT
# CF72 8TL

## Dyddiad yr arolygiad:  Medi 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Lleolir Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant ym mhentref Meisgyn ger Pontyclun yn Rhondda Cynon Taf. Mae'n darparu addysg i ddisgyblion o bentrefi Llantrisant, Meisgyn, y Groes Faen a'r ardaloedd cyfagos. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 313 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 42 oed meithrin rhan-amser. Mae 11 dosbarth yn yr ysgol gan gynnwys 3 dosbarth oed cymysg.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae tua 2% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol (18%). Mae tua 30% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Nid oes yr un disgybl yn derbyn cefnogaeth am Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 10% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn is na'r canran cenedlaethol o 21%. Nid oes disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2012 a'r dirprwy ym Medi 2017. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae staff yn creu ethos hapus, gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol, sy’n meithrin awyrgylch dysgu cefnogol a gweithgar i’r disgyblion.  O ganlyniad, mae’r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu.  Maent yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr ac y maent yn arddangos balchder yn eu hysgol.

Mae athrawon wedi sefydlu perthynas waith arbennig o effeithiol gyda’r disgyblion ac maent yn darparu profiadau dysgu cyfoethog a diddorol sy’n bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt.  Mae ethos Cymreig cryf yn bodoli yn yr ysgol, gyda’r ddarpariaeth yn annog y disgyblion i wneud defnydd llawn o’r Gymraeg ymhob agwedd o’i gwaith a’i bywyd.  O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu’n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus.  Maent yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni’n dda.

Mae’r pennaeth a’r tîm rheoli yn darparu arweinyddiaeth bwrpasol sy’n rhoi cyfeiriad strategol clir i’r ysgol.  Mae’r holl staff yn ymroddedig a brwdfrydig ac yn cydweithio’n agos fel tîm.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

R1 Darparu cyfleoedd cyson a ffurfiol i rieni wneud sylwadau a chynnig awgrymiadau ar waith yr ysgol

R2 Sicrhau bod pob un o’r athrawon yn herio’r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu yn gyson

R3 Gwella medrau trin data disgyblion cyfnod allweddol 2 wrth iddynt ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

R4 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau'r ysgol, mae medrau llafar a mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda. Er bod yr iaith Gymraeg yn iaith newydd i'r mwyafrif, mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwrando'n astud ac yn cyfathrebu ar lafar yn Gymraeg yn gynyddol hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn eu gweithgareddau ac ar adegau eraill yn ystod y dydd. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn cyfrannu'n bwrpasol yn y ddwy iaith mewn trafodaethau dosbarth. Maent yn defnyddio geirfa ymestynnol i gyfleu effaith, er enghraifft wrth drafod eu hymweliad â Gwersyll yr Urdd yn Llangrannog. Maent yn dangos balchder tuag at y Gymraeg ac yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi.

Mae medrau darllen rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig yn hyderus i adeiladu geiriau anghyfarwydd. Mae bron pob disgybl, erbyn Blwyddyn 2, yn darllen ar goedd yn hyderus i gynulleidfaoedd amrywiol, gan gynnwys darllen yn rheolaidd i'w partneriaid darllen ym Mlwyddyn 6. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd cadarn yn eu darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn trafod cynnwys testun yn ystyrlon gan gyfeirio'n synhwyrol at ddigwyddiadau a chymeriadau yn y llyfrau maent yn eu darllen. Maent yn ymarfer eu medrau darllen uwch yn gyson ac aeddfed i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, gan gynnwys cyfeirlyfrau a'r we, er enghraifft wrth gymharu bywyd pobl gyfoethog a phobl dlawd yn Oes y Tuduriaid.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau, er enghraifft wrth ysgrifennu stori'r bachgen bach toes. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflwyno'u syniadau yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion ystod eang o ffurfiau gwahanol, er enghraifft greu dadl o blaid neu yn erbyn gwisg ysgol neu wrth ysgrifennu llythyr at fwyty lleol ynglŷn â'u gorddefnydd o blastig. Maent yn drafftio ac ailddrafftio eu gwaith yn effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y ddwy iaith. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer o'r disgyblion yn daclus.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Erbyn Blwyddyn 2, mae ganddynt afael cadarn ar ffeithiau rhif, maent yn trin arian yn gywir ac yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r medrau hyn yn hyderus wrth ddatrys gweithgareddau a phroblemau, er enghraifft wrth leoli gwahanol nodweddion ar ynys ddychmygol i fôr ladron. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau rhan fwyaf y disgyblion mewn

gwersi mathemateg yn gadarn. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i ddatrys problemau yn seiliedig ar gynnyrch masnach deg, er enghraifft, trwy gyfrifo'n gywir yn y pen ac ar bapur. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn derbyn digon o gyfleoedd i'w galluogi i gymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon rheolaidd mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau'n llwyddiannus i gyflwyno gwybodaeth, er enghraifft ar effaith llygredd ar yr amgylchedd. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio cronfa ddata syml i gofnodi penblwyddi aelodau'r dosbarth, er enghraifft. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol i chwilio am wybodaeth ac yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus i gyflwyno'u canfyddiadau, er enghraifft ar swyddogaeth gwahanol organau'r corff. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n datblygu dealltwriaeth dda o sut i drin data, i'w galluogi i ddilyn trywyddau ymholi penodol ar draws y cwricwlwm.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn ymfalchïo ynddi. Maent yn teimlo'n gwbl ddiogel yno a gwyddant at bwy i droi am gyngor petai rywbeth yn eu poeni. Maent yn hyderus bod yr ysgol yn ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt yn brydlon. Mae'r rhan fwyaf yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn gyson dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae hyn yn amlwg yn ystod amseroedd cinio ble mae disgyblion hŷn yn chwarae gemau buarth gyda'r rhai iau. Mae bron pob un disgybl yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch a chwrteisi. Maent yn dangos mwynhad yn eu dysgu ac maent yn barod iawn i drafod eu gwaith a'u llwyddiannau gydag ymwelwyr.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymagweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig, sy'n cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig. Mae'r rhan fwyaf yn dangos lefelau da o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. Maent yn gwrando ar safbwyntiau eraill yn aeddfed, ac yn aros eu tro yn amyneddgar. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos o ddysgu effeithiol sy'n bodoli o fewn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar beth maent yn dymuno ei ddysgu o fewn thema'r tymor. Maent yn dangos gallu cynyddol i gydgynllunio ac i fynegi barn am yr hyn maent yn ei ddysgu. O ganlyniad, maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol, hyderus ac uchelgeisiol sy'n deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i symud eu dysgu ymlaen. O oed cynnar, mae gan ran fwyaf ohonynt ddealltwriaeth dda o sut i wella eu gwaith. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn dangos aeddfedrwydd wrth arfarnu'r hyn maent wedi ei gyflawni ac i adnabod yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn falch iawn o'r cyfleoedd a gânt i ddatblygu eu medrau arwain. Trwy amrywiol bwyllgorau a grwpiau sydd yn cynrychioli disgyblion maent yn cyfrannu'n effeithiol at fywyd a gwaith yr ysgol. Mae dealltwriaeth rhan fwyaf y

disgyblion o werthoedd moesol a chydraddoldeb yn datblygu'n dda. Mae ymwybyddiaeth gadarn gan ran fwyaf o ddisgyblion o'u hawliau dan gonfensiwn y cenhedloedd unedig, trwy waith aelodau Llais Llantrisant. Mae hyn yn hybu eu hymwybyddiaeth o degwch, cydraddoldeb, goddefgarwch, cynaliadwyedd a hawliau plant yn effeithiol. Mae disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig i'r cyfleoedd gwerthfawr a gânt i ddatblygu'n ddinasyddion cydwybodol a gweithgar. Enghraifft dda o hyn yw ymgyrch y Dinasyddion Doeth i leihau gwastraff papur trwy annog siopau lleol i ddefnyddio cwpanau amldro. Mae aelodau'r pwyllgor lles yn weithgar wrth annog trigolion lleol i gymryd gofal o'u cymuned. Mae'r cyngor ysgol yn trefnu gweithgareddau amrywiol i godi arian at elusennau lleol a chenedlaethol yn flynyddol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill, yn ogystal â datblygu ymdeimlad o falchder ynddynt o'u cymuned.

Mae gan bron pob un disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae'r pwyllgor ysgolion iach yn cynnal siop ffrwythau amser egwyl sydd yn annog disgyblion i fwyta ac yfed byrbrydau iachus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw'n heini ac maent yn ymgymryd â gweithgarwch corfforol yn egnïol yn rheolaidd. Mae bron pob un disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae staff yr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, ac mae'r berthynas dda sy'n bodoli rhwng oedolion a disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae'r staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar. Mae ethos Cymreig cryf yn bodoli â'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd niferus i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u treftadaeth a diwylliant Cymru, er enghraifft wrth astudio hanes diwydiannol yr ardal leol. Cyfoethogir y profiadau dysgu hyn ymhellach i'r disgyblion trwy wahodd ymwelwyr fel athletwr enwog i'r ysgol i siarad â nhw am ei brofiadau, a thrwy drefnu ymweliadau diddorol iddynt â lleoedd gwahanol, fel yr Amgueddfa Werin.

Mae athrawon yn darparu ystod amrywiol o brofiadau dysgu gwerthfawr sy'n bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol, sy'n sicrhau bod y disgyblion yn ymroi'n llawn yn eu gwersi. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ofynion y cwricwlwm, ac maent yn darparu tasgau a heriau sy'n cymell diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion yn dda. Maent yn cysylltu eu gwersi'n effeithiol â dysgu blaenorol ac yn esbonio cysyniadau newydd yn glir. Yn yr ychydig ddosbarthiadau, lle mae'r addysgu yn effeithiol iawn, mae cyflwyniadau dychmygus ynghyd â chyflymder y gwersi yn nodweddion cryf o'r addysgu. Mae'r athrawon yn defnyddio cwestiynu penagored fel 'O ble ddaeth yr enfys?' a 'Pham mae'r môr yn hallt?' sy'n tanio dychymyg y disgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i fentro ac i ymgymryd â'r tasgau yn frwdfrydig ac yn annibynnol. Yn yr ychydig ddosbarthiadau, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r athrawon bob tro yn herio'r disgyblion yn ddigon effeithiol er mwyn iddynt gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n llawn ac yn meithrin annibyniaeth y disgyblion yn gynnar iawn. Mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu ysgogol sy'n tanio eu dychymyg, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 2 chwarae rôl yn y Siop Swynau. Yn gyffredinol, mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn adeiladu ar y sylfaen gadarn hon yn llwyddiannus. Maent yn cydweithio'n effeithiol i ddiweddaru eu cynlluniau i fynd i'r afael â'r cwricwlwm diwygiedig yng Nghymru ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wneud penderfyniadau mewn perthynas â'u gwaith. Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd Cymraeg a Saesneg y disgyblion ac yn sicrhau cyfleoedd cynhwysfawr iddynt ddatblygu'r medrau hyn mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm. Er hyn, nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau rhifedd a'u medrau trin data mewn TGCh wedi datblygu'n ddigon effeithiol i'r disgyblion eu cymhwyso yn ddigon rheolaidd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig cadarn i ddisgyblion er mwyn iddynt wneud gwelliannau a datblygu eu gwaith ymhellach. Anogir disgyblion i fanteisio ar gyfleoedd i wella eu gwaith trwy ymateb i sylwadau'r athrawon. Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion werthuso eu gwaith a gwaith disgyblion eraill. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion, yn gynnar iawn, yn deall pa mor dda maent yn ei wneud ac yn sicrhau eu bod yn gwybod sut i wella eu gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae staff yn creu ethos hapus, gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol, lle mae pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae'n gymuned gyfeillgar a theuluol sy'n hyrwyddo ymddygiad da, cwrteisi ac ymroddiad disgyblion yn llwyddiannus. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad cadarnhaol bron pob un o'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r staff yn hyrwyddo cydraddoldeb, ac amrywiaeth yn effeithiol gyda phwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd cytûn. Mae athrawon yn sicrhau bod hawliau plant yn derbyn sylw amlwg yn ystod cyfnodau cyd-addoli ac ym mywyd dyddiol yr ysgol. Mae'r pwyslais ar 'hawl y mis', sy'n cael ei ddewis gan bwyllgor Llais Llantrisant, yn cyfrannu'n fuddiol at yr ymdeimlad o barch sy'n bodoli rhwng disgyblion ac oedolion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a mynegiannol disgyblion, yn enwedig eu medrau cerddorol yn effeithiol. Mae cyfleoedd niferus a buddiol i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a chyngherddau gydag ysgol gyfagos. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd hyn a hefyd yn y cyfleodd a gânt i gystadlu mewn eisteddfodau. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu hunanhyder llawer o'r disgyblion, yn ogystal â'u hymwybyddiaeth o'u hetifeddiaeth Gymreig.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymuno ag amrywiol grwpiau arwain, sy'n cael effaith gadarnhaol ar agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae'r swyddogion iaith, y 'Criw Cymraeg', yn frwdfrydig wrth hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ym mywyd dyddiol yr ysgol fel rhan o waith y Siarter Iaith. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos balchder at yr iaith ac yn ei ddefnyddio i gymdeithasu yn ystod amser chwarae ac yn eu gwersi.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trwyadl i olrhain cynnydd disgyblion yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn fedrus i adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r gweithdrefnau hyn yn fedrus i adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth addas o ddulliau i ddarparu ymyraethau priodol ar eu cyfer. Enghraifft dda o hyn yw'r ymyrraeth lwyddiannus i ddatblygu medrau darllen grŵp o ddisgyblion. Mae cynlluniau addysg unigol disgyblion yn cynnwys targedau clir sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol gan athrawon a chymorthyddion i sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau. Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant a chânt eu cynnwys yn llawn wrth adolygu eu cynnydd.

Mae trefniadau ar gyfer ymateb i anghenion emosiynol disgyblion yn llwyddiannus ac yn cael effaith gadarnhaol arnynt. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn trefnu cymorth bwriadus ar gyfer disgyblion i drafod eu teimladau ar adegau anodd, ac i godi eu hunan hyder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y disgyblion o faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn sefydlu perthynas briodol gyda llawer o'r rhieni. Trwy ddefnyddio cylch llythyron, cyfryngau cymdeithasol a safle we'r ysgol, mae athrawon yn cynnig gwybodaeth addas iddynt ynglŷn â bywyd a gwaith yr ysgol. Mae llawer yn gwerthfawrogi'r cyswllt a'r wybodaeth yma. Mae cyfeillion yr ysgol yn cyfrannu cyllid sylweddol, er enghraifft trwy brynu adnoddau TGCh sy'n galluogi'r ysgol i baratoi ar gyfer dyfodiad y fframwaith cymhwysedd digidol. Fodd bynnag, nid yw'r dulliau cyfathrebu presennol yn effeithiol wrth ddatblygu gallu'r holl rieni i gefnogi eu plant yn dda nac i godi unrhyw faterion a allai effeithio ar eu dysgu a'u lles.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth ac aelodau'r tîm rheoli yn darparu arweiniad strategol clir i waith yr ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth gadarn sy'n seiliedig ar sicrhau amrediad o brofiadau dysgu cyfoethog i'r disgyblion mewn awyrgylch gartrefol, gefnogol, Cymreig. Mae'r staff yn ymroddgar ac yn cydweithio'n fedrus, gan ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac effeithiol. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy trwy ddod at ei gilydd i drafod yn rheolaidd a chynllunio ar y cyd. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n gadarn ar flaenoriaethau ar gyfer gwella gyda ffocws clir ar godi safonau a lles disgyblion ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd cyson i staff olrhain a thrafod cynnydd disgyblion, i werthuso'r ddarpariaeth ac i gyfrannu at osod targedau gwella. Mae hyn yn rhoi ffocws clir i waith yr holl staff, ac yn cyfrannu'n dda at sicrhau gwelliant parhaus. O ganlyniad, mae'r staff yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau drwy weithredu nifer o strategaethau pwrpasol fel cyfleoedd cyson a defnyddiol i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn maent yn ei ddysgu ac wrth wella'r adborth iddynt ar eu gwaith.

Mae’r trefniadau i reoli perfformiad staff yn gadarn, ac yn cysylltu’n uniongyrchol â blaenoriaethau’r ysgol ac anghenion athrawon unigol. Mae’r arweinwyr yn cynnig cyfleoedd da i staff wella eu harfer a chodi safonau’r disgyblion. Mae hyn, er enghraifft wedi arwain at wella medrau ysgrifennu’r disgyblion. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd cyfoethog i staff gymryd rhan mewn gweithgorau ac i ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi ar arfer dda. Mae hyn, er enghraifft, yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr adborth i ddisgyblion ar eu gwaith. Mae perthynas agos a gwerthfawr yn bodoli gydag ysgolion y dalgylch, er enghraifft wrth gymedroli gwaith disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod gan athrawon ymwybyddiaeth dda o lefelu gwaith disgyblion a bod cysondeb yn asesiadau’r ysgol. Mae staff yn frwdfrydig wrth fynd i’r afael â datblygiadau diweddar ym maes addysg, er enghraifft, wrth baratoi ar gyfer cyflwyno’r fframwaith cymhwysedd digidol.

Ar y cyfan, mae gweithdrefnau hunanarfarnu’r ysgol yn effeithiol ac wedi eu seilio’n gadarn ar dystiolaeth eang o gyflawniad disgyblion. Mae gan arweinwyr wybodaeth drylwyr am safonau dysgu ac addysgu ac maent yn gwerthuso perfformiad yr ysgol yn fanwl. Trwy graffu ar gynlluniau, gwaith disgyblion, ac arsylwadau gwersi, maent yn dod i farn deg a chywir ynglŷn â safonau cyfredol yr ysgol ynghyd ag adnabod agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o ganfyddiadau’r broses hunanarfarnu i wneud penderfyniadau ac i osod cyfeiriad strategol pwrpasol i waith yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw’r modd y mae’r ysgol wedi mynd ati i gyflwyno strategaethau i wella medrau rhifedd pen disgyblion ac ansawdd gwaith ysgrifennu estynedig disgyblion ar draws y cwricwlwm. Er hyn, nid yw’r ysgol yn casglu barn rhieni yn ddigon rheolaidd. Mae hyn yn cyfyngu ar allu arweinwyr i ddehongli’r arlwy o safbwynt y rhieni, ac yn rhwystr i rieni wneud sylwadau a chynnig awgrymiadau ar sut i wella materion sy’n bwysig iddyn nhw.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol. Mae ganddynt gyfrifoldebau am agweddau amrywiol o feysydd cwricwlaidd a blaenoriaethau gwella. Trwy gydweithio ag arweinwyr yr ysgol, arsylwi ar wersi a chynnal teithiau dysgu perthnasol, maent yn chwarae rôl weithredol yng ngweithdrefnau hunanarfarnu a monitro’r ysgol. Mae’r corff llywodraethol yn hybu llais y disgyblion yn llwyddiannus, er enghraifft trwy wahodd aelodau’r ‘senedd’ i gyflwyno’u hadroddiadau am eu cyfraniad a’u dyheadau i’r corff llawn. Mae hyn yn galluogi llywodraethwyr i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol.

Mae’r arweinwyr yn rheoli adnoddau yn effeithiol. Mae penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd yn glir â blaenoriaethau strategol yr ysgol. Mae’r gyllideb yn cael ei defnyddio yn effeithiol i ymateb i anghenion penodol, er enghraifft trwy ddarparu adnoddau pwrpasol i baratoi ar gyfer y fframwaith cymhwyso digidol. Mae’r ysgol yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn dda ar gyfer sicrhau lles a chodi safonau’r ychydig iawn o ddisgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/11/2018